

# Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

## SoNaRR2020 Cofrestru morol pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

# Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestru morol pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

Diwygiadau:

Fersiwn y ddogfen	Diwygiad
Fersiwn 3.0	Effaith 1.4

# Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

**Crynodeb Gweithredol.** Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

**Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol.** Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

**Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

**Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

**Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol.** Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

**Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol.** Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

**Acronymau a Rhestr Termau.** Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

### **Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:**

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestru morol pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

# Morol

## Cofrestr Adnoddau Naturiol

### Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a'r cyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygyrch o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae'r Gofrestr Adnoddau Naturiol Morol yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNaRR2020 Cofrestru morol asesiad SMNR
2. SoNaRR2020 Register marine evidence

Tabl 1 Prif sbardunau, pwysau ac effeithiau ar ecosystem yr ardal forol

Prif sbardunau	Pwysau	Effaith
<b>Newid yn yr hinsawdd</b>	1. Tymheredd Dŵr Cynyddol	<p>1.1. Arwain yn uniongyrchol at ostyngiad mewn ocsigen toddedig a chynnydd mewn haeniad. Asesiad hyder: UCHEL. Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.2. Yn effeithio ar weoedd bwyd, gyda'r effeithiau i'w gweld yn rhywogaethau gwely'r môr, yn ogystal â phlancton, pysgod, adar a mamaliaid. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.3. Cynyddu bygythiad rhywogaethau estron goresgynnol Asesiad hyder: UCHEL Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy: Nod 2</p> <p>1.4. Llai o ocsigen tawdd: Yn effeithio ar weoedd bwyd, gyda'r effeithiau i'w gweld yn rhywogaethau gwely'r môr, yn ogystal â phlancton, pysgod, adar a mamaliaid. Asesiad Hyder: ISEL Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>

<b>Prif sbardunau</b>	<b>Pwysau</b>	<b>Effaith</b>
<b>Newid yn yr hinsawdd</b>	2. Asideiddio yn y môr	2.1. Yn effeithio ar weoedd bwyd, gyda'r effeithiau i'w gweld yn rhywogaethau gwely'r môr, yn ogystal â phlancton, pysgod, adar a mamaliaid. Asesiad Hyder: CANOLIG Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
<b>Newid yn yr hinsawdd</b>	3. Cynydd o ran lefel y môr	3.1. Cynyddu'r risg o lifogydd arfordirol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 3 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
<b>Llygredd</b>	4. Llygredd dŵr	4.1. Mae lefelau maethynnau uchel a halogion cemegol yn niweidiol i weithrediad y system gyfan, ac i gyflwr cynefinoedd a rhywogaethau penodol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy  4.2. Mae cynyddu a dosbarthu sbwriel môr yn effeithio ar werth esthetig yr amgylchedd morol, ac mae hefyd yn bygwth cynefinoedd a rhywogaethau morol. Asesiad hyder: UCHEL Nod 1, 2 a 3 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
<b>Newid yn nefnydd tiroedd</b>	5. Mynediad, chwaraeon a gweithgareddau hamdden heb eu rheoli	5.1. Effeithiau posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau morol o bysgota morol at ddibenion hamdden, mynd ar gwch at ddibenion hamdden (angori, mwrio a lansio), cloddio am abwyd a chasglu adnoddau byw a mynediad ar droed. Asesiad hyder: ISEL Nod 1 a 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Prif sbardunau	Pwysau	Effaith
<b>Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefyd</b>	6. rhywogaethau estron goresgynnol	6.1. Mygu neu ddisodli rhywogaethau brodorol; niweidio neu addasu cynefinoedd morol yn sylweddol. Asesiad Hyder: UCHEL Nod 2 - rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
<b>Gorddefnyddio</b>	7. Diffyg tystiolaeth ar gyfer pysgodfeydd	7.1. Ansicrwydd o ran cynaliadwyedd pysgodfeydd ac effeithiau posibl ar rywogaethau targed a rhywogaethau eraill a'r cynefinoedd cysylltiedig

## Cyfleoedd i Weithredu

### Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

**Deall a gwella cyflwr a dull rheoli nodwedd.** Mae angen i ni wella ein gallu i asesu cyflwr nodwedd Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a'i gyflawni er mwyn adfer a gwella cyflwr ecosystemau morol yng Nghymru dros y tymor hir.

**Ynni adnewyddadwy morol - datblygu potensial ynni carbon isel.** Mae hyn yn gyfle sylweddol i ddatgarboneiddio Cymru a chyfrannu at economi gylchol trwy wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol gan gynyddu buddion darparu gwasanaethau ecosystem. Fodd bynnag, bydd angen cynyddu'r defnydd o ddyfeisiau a safleoedd adnewyddadwy yn gynaliadwy er mwyn osgoi canlyniadau posibl ar gyfer ehangder, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd, rhywogaethau ac adnoddau naturiol morol.

[Synergedd] Mae cyfleoedd sylweddol i ddatblygiad ynni adnewyddadwy morol carbon isel gyfrannu at lesiant, cwrdd â thargedau lleihau allyriadau, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd byd-eang a helpu i sicrhau buddion rheoleiddio hinsawdd morol parhaus.

[Synergedd] Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu perthynas synergidd rhwng adeiladu gwytnwch ecosystem a chynllunio datblygiadau cynaliadwy, strategol ac ar lefel prosiect.

[Synergedd] Dylai gwella ein gwybodaeth am yr amgylchedd morol ysgogi dulliau cynllunio a gwneud penderfyniadau mwy effeithiol ac effeithlon a dealltwriaeth fanylach o wrthdaro rhwng gweithgareddau i gefnogi gwell defnydd o ofod morol

### Nod 2: Ecosystemau gwydn

**Adeiladu gwytnwch** yr ecosystem forol trwy adfer cynefinoedd, gwneud y mwyaf o botensial dal a storio carbon, cwblhau rhwydwaith cydlynol ecolegol o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a reolir yn dda, gan ddatblygu potensial ynni carbon isel.



**Cydweithio i adfer cynefinoedd** trwy fentrau amrywiol i nodi a manteisio ar gyfleoedd i adfer neu wella cynefinoedd morol.

**Rhwydwaith ecolegol cyflawn o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig a reolir yn dda.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith i gwblhau'r rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchoddedig trwy ddynodi nifer o Barthau Cadwraeth Morol.

**Cyflawni dull rheoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig effeithiol a chyson** trwy'r Fframwaith Rheoli Rhwydwaith a'r Cynllun Gweithredu; cydweithredu ar draws Datganiadau Ardal.

[Synergedd] Bydd gwella dull rheoli a chyflwr cyffredinol Ardaloedd Morol Gwarchoddedig yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau rhwydwaith cenedlaethol a rhyngwladol ac yn cynyddu apêl yr amgylchedd morol, gan arwain at fwy o wasanaethau diwylliannol a buddion ar gyfer llesiant e.e. iechyd, twristiaeth, hamdden ac ati, a buddion economaidd cysylltiedig.

[Synergedd] Gallai adfer a gwella cynefinoedd arfordirol a morol sicrhau gwasanaethau rheoleiddio a buddion amddiffyn peryglon fel llifogydd ac erydu.

[Synergedd] Byddai adfer a gwella cynefinoedd morwellt, morfeydd heli a macro-algae yn cynyddu gallu ecosystem forol Cymru i atafaelu carbon a darparu amddiffyniad naturiol rhag peryglon, fel llifogydd arfordirol.

### **Nod 3: Lleoedd Iach i Bobl**

**Gwella'r dull o reoli gweithgareddau a phwysau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr mewn ecosystemau morol ac arfordirol,** trwy fesurau Cynlluniau Rheoli Basn Afon; rheoli tir amaethyddol; Dalgylchoedd â Chyfleoedd; Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchoddedig.

[Cyfnewidiad] Gallai mynd i'r afael ag effeithiau lefelau DIN uchel arwain at oblygiadau i'r sector amaethyddol

**Gwella ein dealltwriaeth o ddal a storio carbon, rôl gwahanol gynefinoedd a phwysigrwydd eu cyflwr.**

[Cyfnewidiad] Gallai cynyddu gweithgareddau twristiaeth a hamdden arwain at fwy o effeithiau (e.e. sbwriel morol, traffig morol, aflonyddu ar rywogaethau morol, difrod i gynefinoedd sensitif ac ati) ar yr amgylchedd morol oni bai eu bod yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, yn enwedig gan fod llawer o weithgareddau na ellir eu trwyddedu, felly mae offer cyfyngedig i arwain y dull o'u rheoli.

[Cyfnewidiad] Efallai y bydd mynd i'r afael â llwybrau sbwriel morol yn arwain at oblygiadau ariannol i'r diwydiannau dŵr a gwastraff, awdurdodau lleol a busnesau

[Synergedd] Gwell ansawdd dŵr, lleihau sbwriel a dynodi mwy o draethau yn rhai Baner Las, gan arwain at fwy o wasanaethau diwylliannol a buddion ar gyfer llesiant e.e. iechyd, twristiaeth, hamdden ac ati a buddion economaidd cysylltiedig.

### **Nod 4: Economi Atgynhyrchiol**

**Ynni adnewyddadwy morol - datblygu potensial ynni carbon isel.** Mae hwn yn gyfle sylweddol i ddatgarboneiddio Cymru a chyfrannu at economi gylchol trwy wneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau naturiol wrth gynyddu buddion darparu gwasanaethau ecosystem. Fodd bynnag, bydd angen cynyddu'r defnydd o ddyfeisiau a safleoedd

adnewyddadwy yn gynaliadwy er mwyn osgoi canlyniadau posibl ar gyfer maint, cyflwr a chysylltedd cynefinoedd, rhywogaethau ac adnoddau naturiol morol.

**Pysgodfeydd** - Bydd y mentrau presennol a'r rhai a gynlluniwyd sy'n anelu at wella ein dealltwriaeth o gyflwr stociau pysgod a physgod cregyn sydd wedi'u targedu'n fasnachol yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr am gynaliadwyedd gweithgareddau pysgodfeydd morol a'u lleoliadau yn nyfroedd Cymru. Mae datblygu dull gofodol trwy Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (megis, trwy archwilio meysydd adnoddau ar gyfer gwahanol sectorau fel agregau, porthladdoedd a morgludiant, ynni adnewyddadwy, dyframaethu) yn cynnig cyfle i arwain twf economaidd cynaliadwy, gyda datblygiad priodol sy'n sicrhau y caiff ecosystemau morol eu cynnal a'u gwella.